WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Ms. Bronwen Morgan
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Ceredigion
Swyddfeydd y Cyngor
Penmorfa
Aberaeron
Ceredigion
SA46 0PA

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 5 Hydref 2012 |
| **Ein cyfeirnod** | 534A2012 |
| **Eich cyfeirnod** | |
| **Ffôn** | 029 2032 0500 |
| **E-bost** | WalesAuditOffice@WAO.gov.uk |
| **Tudalennau** | **1** o **9** |

Annwyl Bronwen

## Asesiad o Welliant

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i mi gyflwyno adroddiad ar fy ngwaith archwilio ac asesu mewn perthynas ag a yw Cyngor Sir Ceredigion (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau a bodloni gofynion y Mesur.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r canlynol:

- fy marn ar a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio gwelliannau;
- fy marn ar a yw'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, yn seiliedig ar waith a gyflawnwyd hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, gan gynnwys:
  - cynnydd y Cyngor mewn perthynas â meysydd i'w gwella ac argymhellion a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol;
  - unrhyw faterion perthnasol sydd wedi codi ers fy adroddiad diwethaf, gan gynnwys sylwadau ar sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â heriau ariannol; a
  - chrynodeb o unrhyw adroddiadau gan reoleiddwyr perthnasol sydd wedi'u cyhoeddi ers fy adroddiad diwethaf.
- fy argymhellion a/neu gynigion pellach ar gyfer gwella; a
- diweddariadau i gynllun gwaith Swyddfa Archwilio Cymru ac amserlen ar gyfer cyflawni fy ngwaith ar yr Asesiad o Welliant.

## Mae’r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliannau o dan y Mesur. Fodd bynnag, dylai sicrhau ei fod yn gweithredu i raddau pellach yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a bod ei gynllun gwella’n cyfleu beth y mae’n bwriadu ei wneud yn wahanol a sut y bydd hyn yn effeithio ar fywydau dinasyddion.

Rwyf wedi dod i’r casgliad hwn gan fod y Cyngor, trwy gymeradwyo ei Gynllun Gwella ar 31 Gorffennaf 2012, wedi cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Mesur Llywodraeth Leol 2009, o dan adran 15(7), trwy gyhoeddi ei Gynllun Gwella o fewn cyfnod rhesymol ar ôl 1 Ebrill 2012.

Yn ystod ei Brosiect Trawsnewid parhaus, mae’r Cyngor wedi datblygu datganiad lefel uchel o weledigaeth a gefnogir gan saith amcan strategol. Mae’r amcanion hyn yn gysylltiedig â’r chwe amcan gwella a amlinellir yng Nghynllun Gwella 2012-2013 y Cyngor, sy’n debyg iawn. Mae’r amcanion gwella wedi bod yn destun Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb ac maent yn cynnwys cyfeiriadau at agweddau ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol newydd y Cyngor.

Mae’r Cynllun yn cynnwys disgrifiad manwl o amrywiaeth gynhwysfawr o weithgareddau seiliedig ar wasanaethau a fydd yn cyfrannu at y dasg o gyflawni’r amcanion gwella. Mae hefyd yn disgrifio sut y gellir mesur llwyddiant trwy dargedau a dangosyddion perfformiad ac, yn fwy ansoddol, trwy arolygon. Fodd bynnag, mae’r diffyg gwahaniaethu rhwng camau gwella â blaenoriaeth a ‘busnes fel arfer’ yn effeithio ar eglurder y Cynllun, yn enwedig o ran nodi beth mae’r Cyngor yn bwriadu ei wneud yn wahanol i wella ei wasanaethau, a sut y bydd hyn yn tynnu oddi ar fywydau ei ddinasyddion. Yn ogystal, er mwyn dilyn y canllawiau statudol yn llawnach, dylai’r cynllun gynnwys datganiad cyffredinol yn disgrifio’r trefniadau sydd ar waith gan y Cyngor i gyflawni ei ddyletswydd statudol i sicrhau gwelliannau ar draws ei holl swyddogaethau.

Mae’r Cyngor wedi cynnal pob math o weithgareddau ymgynghori â’r cyhoedd a rhanddeiliaid, gan gynnwys ymgysylltu â’i banel dinasyddion, ac mae’r Cynllun yn amlinellu sut mae’r wybodaeth a gasglwyd wedi helpu i lywio’r camau gweithredu sy’n sail i’w amcanion gwella. Fodd bynnag, gallai’r Cynllun roi gwell syniad i ddinasyddion a rhanddeiliaid ynglŷn â sut y gallant ymgysylltu â’r Cyngor a mynegi eu barn mewn perthynas â phennu amcanion gwella. Mae’r Cyngor yn bwriadu cynnal adolygiad o’i weithdrefnau ymgysylltu â’r cyhoedd mewn cydweithrediad â phartneriaid ar Fyrddau Gwasanaethau Lleol er mwyn pwyso a mesur y ffordd orau o’u gwella a gwneud y gorau o’u buddiannau.

Mae etholiadau llywodraeth leol eleni wedi arwain at newid yng ngweinyddiaeth y Cyngor. Mae'r glymblaid newydd dan arweiniad Plaid wedi amlinellu ei blaenoriaethau gwleidyddol mewn dogfen o'r enw 'Governance of Ceredigion - Joint Programme of Work'. Mae'r Cyngor wedi adolygu'r amcanion a'r camau gweithredu a amlinellwyd yn y Cynllun Gwella, gan gadarnhau eu bod yn adlewyrchu'n fras y blaenoriaethau gwleidyddol newydd hynny. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw'r Cynllun Gwella presennol yn ddigon clir ynglŷn â'i flaenoriaethau strategol, beth mae'n bwriadu ei wneud yn wahanol a'r canlyniadau mesuradwy y gall dinasyddion eu disgwyl.

Mae'r Cynllun Gwella ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar wefan y Cyngor, ynghyd â chrynodeb o bob Amcan Gwella. Caiff copïau caled o'r Cynllun Gwella eu dosbarthu i bob un o swyddfeydd cyhoeddus y Cyngor yn yr hydref.

Mae'r Cynllun Gwella'n fanwl ac, mewn rhai mannau, yn gymharol dechnegol.
Mae canllawiau Llywodraeth Cymru'n nodi'n glir y dylai cynghorau gyhoeddi crynodeb priodol o dan yr amgylchiadau hyn. Er bod y Cyngor yn bwriadu darparu crynodeb cyhoeddus o'r Cynllun Gwella, mae'n annhebygol y bydd hwn ar gael cyn 31 Hydref 2012.

## Yn seiliedig ar waith a gyflawnwyd hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig i hwnnw:

## Credaf fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

### Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â'm cynigion blaenorol ar gyfer gwella

Yn y gorffennol, rwyf wedi cyflwyno nifer o gynigion ar gyfer gwella ac wedi nodi rhai meysydd lle byddem yn cyflawni gwaith pellach. Disgrifir y cynnydd ar y materion hyn isod. Mae'r rhan fwyaf o gamau gweithredu'r Cyngor yn barhaus a bydd fy archwilwyr yn parhau i fonitro a chrynhoi cynnydd y Cyngor wrth eu rhoi ar waith yn fy adroddiadau yn y dyfodol. Darperir rhagor o wybodaeth am fy nghanfyddiadau yn rhai o'r meysydd hyn ar wahân mewn diweddariadau interim i'r Cyngor lle bo hynny'n briodol.

**Mae'r Cyngor wedi datblygu portffolios newydd i'r Cabinet ac wedi lleihau nifer y Pwyllgorau Craffu**

Mae'r Cabinet newydd yn cynnwys yr Arweinydd a saith aelod arall a ddewisir gan yr Arweinydd. Y Cabinet fydd yn gwneud y penderfyniadau, er y gall y Pwyllgor Craffu priodol eu galw i mewn. Mae'r Arweinydd wedi creu'r portffolio Rheoli Perfformiad a Thrawsnewid, sef portffolio'r Dirprwy Arweinydd. Bwriad y portffolio hwn yw helpu'r Cyngor i ganolbwyntio ar ei waith o wella ei ddull hunan-sicrhau a gwerthuso perfformiad a sicrhau buddiannau pendant o elfen ad-drefnu'r prosiect trawsnewid, sydd i'w gwblhau erbyn mis Ebrill 2013.

Mae'r trefniadau llywodraethu newydd a fabwysiadwyd gan y Cyngor wedi cynnwys adolygiad o nifer a chwmpas ei Bwyllgorau Craffu. Mae wedi lleihau nifer y Pwyllgorau Craffu i bump, gan gynnwys Pwyllgor Craffu Cydgysylltu.

Er ei bod hi'n rhy gynnar i asesu effeithiolrwydd y newidiadau hyn, credaf eu bod wedi'u hystyried yn fanwl a bod ganddynt y potensial i gefnogi cyflawniad Amcanion Gwella'r Cyngor.

**Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn amlinellu'r pwysau ariannol a'r risgiau tebygol i'r Cyngor, ond mae angen cyflawni mwy o waith i werthuso a lliniaru eu heffaith bosibl ar gyflawniad amcanion gwella'r Cyngor**

Nod cyffredinol Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yw darparu fframwaith a chyfeiriad cyffredinol a pharamedrau fel y gall y Cyngor strwythuro a rheoli ei gyllid er mwyn sicrhau bod adnoddau ariannol yn cael eu defnyddio mewn ffordd gyfrifol a gofalus.

Mae gan y Cyngor brofiad o lunio cyllideb refeniw gytbwys sy'n ystyried rhagolygon chwyddiant a chynlluniau gwasanaethau ar lefel gorfforaethol. Cynhelir y broses cynllunio ariannol mewn ffordd drylwyr, gofalus ac agored, ac mae'r Gweithdai ar y Gyllideb yn darparu fforwm cymharol newydd a defnyddiol o hwyluso trafodaeth gynhwysol.

Nid yw'r Cyngor yn gallu dangos cystal sut mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn berthnasol i ddarpariaeth gwasanaethau, ac yn enwedig y gwaith o gyflawni amcanion gwella'r Cyngor. Er bod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn amlinellu'r pwysau ariannol a'r risgiau tebygol i'r Cyngor, nid yw'n gwerthuso eu heffaith bosibl ar gyflawniad ei amcanion gwella, na sut y gellid eu lliniaru.

**Mae dull rheoli gwybodaeth y Cyngor yn datblygu, ond nid yw wedi ei sefydlu'n llwyr nac yn cael ei gydgysylltu'n llawn**

Mae'r Cyngor yn gweithio tuag at berchnogaeth gryfach ac atebolrwydd cliriach i gefnogi dull rheoli gwybodaeth mwy strategol. Mae'r Cyngor wedi dyrannu atebolrwydd yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth ac mae'r rôl yn datblygu, ond mae angen mwy o atebolrwydd cadarn ar gyfer y rhaglen wybodaeth, prosiectau gwybodaeth a risgiau gwybodaeth.

**Mae'r Cyngor yn parhau i wella ei systemau corfforaethol o adrodd ar ei berfformiad**

Mae angen i bob cyngor gael gwybodaeth dda a'i defnyddio'n briodol er mwyn darparu gwasanaethau da a'u gwella ymhellach. Mae'r Cyngor yn parhau i wella ei systemau corfforaethol ar gyfer adrodd ar ei berfformiad a, maes o law, bydd fy archwilwyr yn mynd ati i archwilio'r systemau hyn i asesu pa mor effeithiol a dibynadwy ydynt. Yn y cyfamser, dewiswyd archwilio cymysgedd o Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol, Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus, Setiau Data Gwella Gwasanaethau a mesurau lleol. Mae'r mesurau a ddewiswyd yn cael eu defnyddio gan y Cyngor i bennu pa mor dda mae'n cyflawni ei amcanion gwella ac a yw'n gwneud gwahaniaeth mawr i'w ddinasyddion.

O'r 21 o ddangosyddion perfformiad a archwiliwyd, un Dangosydd Strategol Cenedlaethol oedd yn un amodol. Mae'r dangosydd hwn, WMT009, yn dangos canran y gwastraff trefol a gesglir gan y Cyngor a baratoir i'w ailddefnyddio a/neu ei ailgylchu. Mae'n ddangosydd amodol am na all y Cyngor wahanu gwastraff glanhau traethau o'r cyfanswm fel sy'n ofynnol yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae rhai cynghorau eraill yng Nghymru'n cael yr un broblem. Yn ogystal, awgrymwyd gennym y dylid gwella sail cyfrifo dwy Set Ddata Gwella Gwasanaethau, er na arweiniodd ein gwaith o ail-gyfrifo'r dangosyddion at unrhyw newidiadau sylweddol yn y canlyniadau. Byddaf yn cyflwyno adroddiad pellach ar berfformiad gwasanaethau yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol.

## Mae gwasanaethau plant yn derbyn cymorth corfforaethol da ac ymrwymiad i wella a moderneiddio trefniadau mynediad, ond mae'r analluu i recriwtio gweithwyr cymwys a phrofiadol wedi rhwystro cynnydd yn y maes

Cyhoeddodd AGGCC ganfyddiadau ei harolygiad o drefniadau derbyn y Cyngor ar gyfer gwasanaethau plant ym mis Ionawr 2012. Mae'r adroddiad arolygu ar gael ar wefan AGGCC yn http://cymru.gov.uk/docs/cssiw/report/120131ceredigioncy.pdf ac amlinellir crynodeb o'i chanfyddiadau yn Atodiad 1.

Daeth AGGCC i'r casgliad bod gwasanaethau plant yng Ngheredigion yn derbyn cymorth corfforaethol da. Mae yna ymrwymiad clir i wella a moderneiddio ei drefniadau derbyn. Mae llawer iawn o waith wedi'i gyflawni, ond mae'r anallu i recriwtio gweithwyr cymwys a phrofiadol wedi rhwystro cynnydd yn y maes. Roedd nifer o feysydd i'w gwella eisoes wedi'u nodi a'u hymgorffori yn y strategaeth sicrhau ansawdd a'r cynllun gweithredu. Dylai'r Cyngor sicrhau bod unrhyw argymhellion ychwanegol yn cael eu hymgorffori mewn cynllun gweithredu sy'n cynnwys amcanion, canlyniadau ac amserlenni clir.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella

Amlinellir pedwar cynnig pellach ar gyfer gwella yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor o ran gweithredu'r cynigion a amlinellwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol.

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| Dylai'r Cyngor: | |
| C1 | Egluro ei flaenoriaethau strategol / amcanion gwella a gwerthuso'r goblygiadau ariannol a'r goblygiadau o ran gweithlu ac asedau fel y gall y Cynllun Ariannol Tymor Canolig gael ei ddefnyddio fel dull cynllunio effeithiol i nodi sut y bydd y blaenoriaethau hyn yn cael eu hariannu. |
| C2 | Adolygu terminoleg amcanion gwella a natur y camau gweithredu a'r mesurau llwyddiant perthnasol i sicrhau eu bod yn cael eu mynegi a'u blaenoriaethu'n glir, gan alluogi dinasyddion lleol i fonitro'r gwahaniaeth mae'r Cyngor yn ei wneud i'w bywydau. |
| C3 | Datblygu dull corfforaethol mwy cydgysylltiedig o ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn gwella'r ffordd mae gweithgareddau ymgysylltu'n cael eu gweithredu a'u gwerthuso'n gyson i sicrhau ei fod yn effeithiol o ran gwella gwasanaethau a chanlyniadau i ddinasyddion. |
| C4 | Cynnwys datganiad cyffredinol yn y Cynllun Gwella blynyddol ar sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni ei ddyletswydd statudol gyffredinol i gael trefniadau ar waith i sicrhau gwelliannau ar draws ei holl swyddogaethau. |

## Diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen

Bydd fy Nhîm Asesu Gwelliant yn sicrhau bod y Cyngor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau manwl ar gyfer cyflawni fy ngwaith asesu.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ac maent yn darparu mwy o fanylion am y gwaith a gyflawnir yn ystod asesiad eleni, ac yn enwedig sut y byddwn yn ychwanegu gwerth trwy ganolbwyntio ar feysydd neu wasanaethau a nodir ar y cyd.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn ystyried fy ymgynghoriad ag awdurdodau gwella ar fy nghynigion ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2012-13. Yn arbennig, byddaf yn gofyn i'm Tîm Asesu Gwelliant ystyried pa mor ddibynadwy yw'r prosesau hunanasesu yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys eich adolygiad o lywodraethu wrth gynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'ch Adroddiad Perfformiad Blynyddol).
Byddaf yn gwneud sylwadau ar y dull hwn yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol.

Rwy'n ddiolchgar i'r Cyngor am y ffordd y mae wedi helpu i hwyluso ein gwaith ac rwy'n gobeithio gweld trefniadau mwy effeithiol ac effeithlon yn datblygu dros amser.
Rwyf wedi ymrwymo i ddarparu lefelau priodol o sicrwydd cyhoeddus a'ch cefnogi i liniaru'r risgiau anochel i wasanaethau ac atebolrwydd sy'n deillio o leihau adnoddau a'r newidiadau yn sgil hynny.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

CC: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

Colin Davies – Rheolwr

John Weston – Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Atodiad 1

Cyhoeddodd AGGCC ganfyddiadau ei harolygiad o drefniadau mynediad y Cyngor ar gyfer gwasanaethau plant ym mis Ionawr 2012. Mae'r crynodeb canlynol yn ddetholiad o'r adroddiad arolygu llawn sydd ar gael ar wefan AGGCC yn http://cymru.gov.uk/docs/cssiw/report/120131ceredigioncy.pdf

Daeth AGGCC i'r casgliadau canlynol:

Mae cefnogaeth gorfforaethol dda i wasanaethau plant yng Ngheredigion. Ceir ymrwymiad clir i wella a moderneiddio ei drefniadau mynediad. Cyflawnwyd swm sylweddol o waith ond cafodd cynnydd ei lesteirio gan yr analluimi recriwtio gweithwyr oedd yn meddu ar y cymwysterau a'r profiad addas.

Roedd nifer o feysydd ar gyfer gwella wedi eu nodi eisoes ac wedi eu cynnwys yn y strategaeth sicrhau ansawdd a'r cynllun gweithredu. Dylai'r awdurdod sicrhau bod unrhyw argymhellion ychwanegol yn cael eu hymgorffori mewn cynllun gweithredu sy'n cynnwys amcanion, deilliannau a therfynau amser clir.

## Cryfderau

- Cefnogaeth gorfforaethol dda i'r gwasanaethau plant;
- Gweithlu ymrwymedig i sicrhau'r deilliannau gorau ar gyfer plant a phobl ifanc;
- Gwasanaeth cyswllt cychwynnol effeithiol ac amserol;
- Peth ymarfer ardderchog o ran asesu a chynllunio ar gyfer plant mewn angen;
- Peth gwaith da rhwng partneriaid o ran cyflawni trefniadau mynediad;
- Ymgysylltu effeithiol â defnyddwyr gwasanaeth;
- Cefnogaeth dda i'r staff gan reolwyr;
- Fframwaith rheoli perfformiad cryf.

## Meysydd ar gyfer gwella:

- Sicrhau bod digon o staff yn y tîm asesu;
- Sicrhau mwy o gysondeb yn y penderfyniadau a wneir gan ddefnyddio asesiad risg;
- Gwella ar nifer y plant a welir ar eu pen eu hunain yn ystod yr asesiadau cychwynnol;
- Cryfhau'r trefniadau mynediad drwy gynnwys partneriaid wrth gytuno ar drothwyon a phrydlondeb adrodd am bryderon amddiffyn plant;
- Gwella prydlondeb ac ansawdd yr asesiadau cychwynnol a chraidd;
- Datblygu protocol er mwyn cynorthwyo teuluoedd nad ydynt yn derbyn asesiad cychwynnol er mwyn iddynt gael mynediad at wasanaethau ataliol;

- Sicrhau bod cynlluniau ar gyfer ateb angen plant a phobl ifanc yn canolbwyntio'n gliriach ar y deilliannau, gyda chyfrifoldebau a therfynau amser cytunedig;
- Gweithredu unrhyw argymhellion fydd yn dilyn yr adolygiad i symleiddio'r prosesau cofnodi electronig;
- Datblygu safonau clir ar gyfer meincnodi ansawdd goruchwyliaeth;
- Parhau i weithredu'r strategaeth sicrhau ansawdd a'r cynllun gweithredu;
- Sicrhau bod protocolau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd;
- Cryfhau'r trefniadau ar gyfer hyfforddiant amlasiantaethol ar waith cynadleddau achos a gwaith grwpiau craidd.